

Tasg 1

Adeiladau yn Bwerdai!

1. Mewn beth mae Dr Eifion Jewell yn arbenigo?
2. Pa eiriau sydd wedi eu hysgrifennu ar y wal?
3. Pa dri gair a ddefnyddiodd Dr Eifion Jewell i egluro'r hyn y mae'n ceisio ei wneud gydag ynni mewn adeilad?
4. Dywedodd Dr Jewell ei fod yn ceisio lleihau rhywbeth a defnyddio mwy o ynni'r haul - ond lleihau beth?
5. Roedd gan y doctor ddau brif bwynt oedd yn ei yrru ymlaen i wneud y gwaith. Beth oedd y pwyntiau?
6. Beth yw nod y gwaith? Beth hoffai Dr Eifion Jewell ei greu?
7. Beth wnaeth ei ysbrydoli i fynd i'r maes yma?

GWAITH GRŴP:

Ar ôl i chi ateb y cwestiynau a nodi'r atebion, mewn grŵp, paratowch gyfweiliad ar gamera rhwng cyflwynydd a chyfranydd (neu fwy nag un). Defnyddiwch iPad yr ysgol, neu unrhyw declyn recordio sydd ar gael, ffilmiwch eitem ar yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu am Dr Eifion Jewell a'i waith.

Paratowch:

- gwestiynau addas
- atebion cynhwysfawr

Penderfynwch:

- Pwy sydd am ofyn y cwestiynau?
- Pwy sydd am ateb?
- Pwy sydd am wneud y gwaith camera?

Ystyriwch:

- Beth yw eich barn a'ch teimladau chi am waith Dr Eifion Jewell? Cyflwynwch eich ateb fel rhan o'r fideo.

Cofiwch:

- Mae siarad yn glir a phwrpasol yn hollbwysig pan fyddwch chi'n siarad ar gamera.

Heriwch:

- Beth am herio'ch hunan i gynnwys pob gair o'r eirfa?

TASG YCHWANEGOL

Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n gweithio mewn maes gwyddonol? Beth am eu cyfweld nhw?

Dyma rai pethau i'w cynnwys yn eich cyfweliad, ond ceisiwch chi feddwl am o leia tri chwestiwn arall i'w cynnwys:

- Pwy?
- Beth yw eu gwaith?
- Beth maen nhw'n ceisio ei gyflawni yn y gwaith?
- Beth yw eu barn am bwysigrwydd y gwaith maen nhw'n ei wneud?
- Sut wnaethon nhw ddewis eu gyrfa?